IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 10 EBRILL 2024

Yn bressenol: Cynghorydd Michael (Cadeirydd)
Cynghorwyr Bridgeman a/ac Jenkins

## 11 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

## 12 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd gyrrwr yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat yn dilyn derbyn cwyn honiad bod y gyrrwr yn ymddwyn yn ymosodol, ac yn gwneud ystumiau llaw anghwrtais ac roedd yn gyrru ei gerbyn mewn ffordd gyda'r nod o achosi pryder.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, cofiodd y gyrrwr fod y cynllun parcio y tu allan i Ysbyty'r Mynydd Bychan wedi newid yn ddiweddar, ac roedd hyn wedi achosi rhywfaint o ddryswch i'r cyhoedd. Fel gyrwyr tacsi roedd angen iddynt egluro i bobl ble y gallent barcio a lle gallent gael tocyn. Roedd pobl fel arfer yn dangos dealltwriaeth ac yn ddiolchgar am y cyngor ond yn yr achos hwn fe aeth y bobl y siaradodd â nhw yn ymosodol a dweud wrtho am fynd i ffwrdd. Dim ond ceisio helpu oedd o ond roedd y ffordd roedden nhw'n ymateb yn gwneud iddo deimlo'n ofnadwy.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, eglurodd y tyst fod ei hatgof o ddigwyddiadau yn wahanol iawn. Roedd hi a'i mab yn casglu ei gŵr ar ôl llawdriniaeth fawr, ac fe'i gollyngodd ei mab hi wrth y fynedfa cyn gyrru i ffwrdd a dod yn ôl i'w casglu. Gwnaeth ei mab yn siŵr ei fod yn mynd i'r man casglu dynodedig, a oedd wedi'i nodi'n glir. Wrth iddo stopio, fe aeth y gyrrwr tacsi allan o'i gar a dechrau gweiddi nad oedden nhw'n gallu parcio yno. Ymatebodd ei mab yn bwyllog mai dim ond 30 eiliad fydden nhw, ond parhaodd y gyrrwr i weiddi a rhoi ei fys canol i fyny atynt. Yna fe wyrodd ei gar yn agos iawn at eu car er mwyn ei gwneud hi'n anodd i'w mab dynnu allan. Fe wnaeth hi ddirwyn y ffenest i

lawr a dweud ei bod hi'n mynd i'w riportio, a dywedodd 'ewch yn ei flaen'.

Awgrymodd y gyrrwr fod y tyst wedi parcio yn y safle tacsi a'i fod yn dweud wrthyn nhw nad oedden nhw'n gallu parcio yno. Mynnodd y tyst nad oedden nhw wedi parcio yn y safle tacsi ar unrhyw adeg, a'u bod wedi dilyn yr arwyddion yn lle hynny.

Ychwanegodd y gyrrwr fod gan ei gerbyd synhwyrydd parcio a chamera felly ni fyddai wedi gyrru'n ôl hyd at gar yr achwynydd fel yr oedd yn honni. Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd nad oedd y camera yn recordio lluniau fideo.

Holodd yr Aelodau sut roedd y system barcio yn yr ysbyty yn gweithio, eglurodd y Swyddog Trwyddedu nad oedd yn cael ei reoleiddio yn y ffordd arferol gan nad oedd y safle tacsi wedi'i ddynodi gan Briffyrdd. Yn hytrach, roedd cytundeb preifat i dacsis gael defnyddio rhai mannau, gyda chwmni preifat yn cyhoeddi tocynnau pan oedd pobl yn torri'r arwyddion. Roedd yn ardal hynod o brysur a ddefnyddiodd ddolen unffordd i atal ceir rhag ddod i mewn i fannau'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Trafododd yr Is-bwyllgor y straeon cyferbyniol yn fanwl a thynnodd sylw at yr angen i yrwyr tacsi sy'n gweithredu mewn ysbyty fod yn arbennig o empathig ac amyneddgar gyda'r cyhoedd, hyd yn oed os oeddent yn teimlo eu bod wir yn gwneud rhywbeth o'i le.

**PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig.**

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd gyrrwr yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat o ystyried bod cwyn wedi'i derbyn yn nodi bod y gyrrwr wedi hysbysu'r awdurdod ei fod wedi'i gael yn euog o drosedd moduro CU80 (defnyddio dyfais symudol wrth yrru).

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr ei fod yn eistedd mewn traffig llonydd gyda'r brêc llaw ymlaen pan gymerodd eiliad i blygio'r cebl gwefru i'w ffôn. Nid oedd yn sylweddoli bod plismon wrth ei ymyl a ddywedodd wrtho ei fod wedi cyflawni trosedd. Roedd wedi bod yn gyrru ers dros 20 mlynedd ac ni fu ganddo un pwynt ar ei drwydded cyn hyn, ac roedd wedi dysgu ei wers a byddai'n llawer mwy gofalus yn y dyfodol.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr nad oedd wedi apelio yn erbyn y gosb am ei fod yn derbyn ei fod wedi cyffwrdd â'i ffôn. Ni welodd y pwynt wrth fynd â hyn i'r llys oherwydd ei fod wedi gwneud yr hyn yr oedd wedi'i gyhuddo ohono, ac fe ddatganodd y drosedd i'r cyngor cyn gynted â phosib. Ychwanegodd ei fod eisoes wedi cael ei gosbi ymhellach am ei weithredoedd yn ychwanegol at y ddirwy gychwynnol, oherwydd bod ei yswiriant wedi cynyddu'n sylweddol.

Ychwanegodd cynrychiolydd y gyrrwr, er bod y drosedd o ddefnyddio dyfais symudol wrth yrru yn un difrifol, roedd ei gerbyd yn llonydd ar y pryd ac nad oedd ganddo unrhyw deithwyr, sy'n golygu nad oedd mewn gwirionedd yn achosi unrhyw risg i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Fodd bynnag, roedd yn drosedd, ac roedd wedi derbyn ei gosb. Awgrymodd y cynrychiolydd fod y gyrrwr wedi cael ei gosbi'n ddigon eisoes, ac y dylid ystyried ei gofnod glân blaenorol a'i edifeirwch clir. Roedd yn yrrwr gonest a dibynadwy na fyddai byth yn gwneud camgymeriad fel hyn eto.

**PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig.**

(3) Cais 3

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd gyrrwr yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat o ystyried bod y gyrrwr wedi adrodd i'r swyddfa drwyddedu bod ei drwydded DVLA wedi’i dirymu oherwydd cronni pwyntiau goryrru dros gyfnod byr, a bod ei drwydded o fewn 2 flynedd o grant cyntaf. Penderfynwyd y byddai angen iddo ailymgeisio a chwblhau ei brofion theori ac ymarferol eto, yr oedd wedi'u gwneud.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr ei fod wedi derbyn 3 phwynt ar dri diwrnod yn olynol ym mis Gorffennaf 2023 yn yr union un lle ar Rhodfa'r Gorllewin. Nid oedd wedi sylweddoli bod y terfyn cyflymder wedi newid o 40 i 30, a nododd y cyflymderau wedi’u clocio (37mya, 38mya a 38mya) ei fod yn credu ei fod o dan y terfyn. Roedd yn yrrwr da a dibynadwy iawn nad oedd erioed wedi cael unrhyw broblemau o'r blaen neu ers hynny.

Ychwanegodd y cynrychiolydd fod y gyrrwr wedi byw bywyd anodd a'i fod yn gorfod gweithio'n galed iawn i gyrraedd lle roedd heddiw, ac roedd ei incwm yn hanfodol i'w deulu ac i gael ei ddau blentyn drwy'r brifysgol. Roedd yn sicr yn berson addas a phriodol i yrru tacsi, ac roedd e jest eisiau

cefnogi ei hun a'i deulu. Derbyniodd fod cael 9 pwynt ar ei drwydded yn beth difrifol, ac y byddai'n arbennig o ofalus gyda newidiadau terfyn cyflymder yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD - Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.**

(4) Cais 4

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o ystyried bod yr ymgeisydd wedi cael euogfarn yn groes i'r canllaw.

Nid oedd y gyrrwr yn bresennol felly gohiriwyd y cais.

(5) Cais 5

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o ystyried bod y gyrrwr wedi dal trwydded gyda'r awdurdod yn flaenorol, ond fe'i cafwyd yn euog o achosi anaf wrth yrru'n beryglus. Nid oedd y gyrrwr wedi dal trwydded berthnasol gyda'r awdurdod ers y cais hwn.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr ei fod wedi ei gael yn euog am yrru'n beryglus yn 2013, ar ôl damwain y mae'n difaru'n fawr. Nid oedd wedi cael damwain o'r blaen nac ers hynny ychwaith. Aeth i'r carchar am y peth a chwblhaodd ei amser ond roedd yn dal i fyw gydag ef heddiw.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, rhoddodd cydweithiwr y gyrrwr eirda cymeriad. Eglurodd fod y gyrrwr wedi bod yn gysylltiedig â'r diwydiant tacsi am amser hir iawn, ac roedd amser hir wedi mynd heibio ers ei drosedd. Roedd wedi gweld sut yr oedd yn ymddwyn gyda gyrwyr eraill, gan drosglwyddo gwybodaeth a phrofiad i fyfyrwyr yn dod drwodd, a chludo plant fel contractwr i'r awdurdod lleol. Roedd wedi profi ei fod yn berson addas a phriodol, ac nid oedd gwerth cosbi pobl yn barhaus am yr un peth. Nid oedd yr un person ag yr oedd 11 mlynedd yn ôl, roedd ganddo deulu erbyn hyn ac roedd eisiau cael ei drwydded yn ôl.

Holodd yr Is-bwyllgor ynghylch trosedd ddiweddar ar hanes trwydded DVLA y gyrrwr, lle'r oedd wedi derbyn 6 phwynt cosb am fethu â rhoi gwybodaeth ynghylch pwy yw'r gyrrwr. Eglurodd y gyrrwr ei fod ar hyn o bryd yn llogi mwy na 400 o geir, ac roedd yr un penodol hwn yn cael ei yrru yn Hampshire. Roedd ei fusnes mewn trafferth ar y pryd ac nid oedd yn gallu cael mynediad i'r adeilad lle cyrhaeddodd y llythyrau ynglŷn â'r drosedd hon. Nid ef oedd gyrrwr y cerbyd ond fel cyfarwyddwr y cwmni ef oedd yn gyfrifol

amdano.

**PENDERFYNWYD – gwrthod y cais.**

(6) Cais 6

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o ystyried bod euogfarn moduro wedi ei datgan ar y cais. Y drosedd oedd IN10, defnyddio cerbyd heb yswiriant yn erbyn risgiau trydydd parti.

Wrth annerch yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr fod y drosedd wedi digwydd ym mis Tachwedd 2022. Yn union cyn hynny, roedd wedi bod allan o'r wlad oherwydd argyfwng teuluol. Nid oedd digon o arian yn ei gyfrif ar gyfer y debyd uniongyrchol i'w yswiriant fynd drwyddo felly cafodd ei ganslo, ond ni dderbyniodd unrhyw hysbysiad o hyn. Yna, cafodd ei stopio gan yr heddlu (yn ei gar ei hun yn hytrach nag mewn cerbyd hurio preifat), cafodd ddirwy o £400 a chael saith pwynt ar ei drwydded. Ychwanegodd ei fod wedi ei drwyddedu ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Casnewydd, oedd yn ymwybodol o'r drosedd ac wedi adnewyddu ei drwydded yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD – Cymeradwyo’r cais.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 am